# ADRODDIAD HYLENDID BWYD

ENW'R SAFLE: CARIB BAYOU    CYFEIRIAD: 23 Stryd Fawr, Caerbibo

DYDDIAD YR AROLYGIAD: 20/08/14

RHEOLIADAU DIOGELWCH A HYLENDID BWYD (CYMRU) 2013
RHEOLIAD YR UE 852/2004

**HACCP – Rheoli Diogelwch Bwyd**
1. Rydych chi'n defnyddio adnodd "Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell" fel eich system o gofnodi mesurau rheoli diogelwch bwyd. Mae pob un o'r 'dulliau diogel' wedi'u llenwi yn y pecyn ac roedd tystiolaeth dda eich bod yn dilyn y dulliau diogel hyn. Cafodd ambell i aelod o staff eu holi ac roeddent yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r dulliau diogel a hylendid bwyd yn gyffredinol. Fodd bynnag, cafodd ei nodi bod nifer o dudalennau'r dyddiadur ar goll o'ch ffolder ac nad oedd pob un o'r rheiny a arolygwyd wedi'u cymeradwyo. Nid ydych wedi llenwi adran 'hyfforddi' y pecyn.

**2. Rheoli Tymheredd:** Boddhaol adeg yr arolygiad er cafod ei nodi bod y larwm ar brif oergell y gegin wedi'i osod ar 12ºC.

**3. Atal Halogi:** Roedd pâr o esgidiau cerdded o dan y sinc golchi llestri. Dyma eich atgoffa y dylid storio dillad/esgidiau/deunyddiau personol nad ydynt i'w defnyddio yn y gegin y tu allan i'r ystafell fwyd. (Gofyniad Cyfreithiol) (Erthygl 4(2) ac Atodiad II, Pennod I.9)

**4. Glanhau/Glanweithdra:** Boddhaol ar y cyfan er y cafodd ei nodi bod arwynebau gwaith yn dal i fod yn wlyb ar ôl glanhau/diheintio. Argymhellir eich bod yn defnyddio tyweli papur neu ddeunyddiau tebyg i sychu arwynebau o'r fath ar ôl glanhau/diheintio.

**5. Hylendid Personol:** Nid oes tywel yn y toiled i'w ddefnyddio gan y rheiny sy'n trin bwyd ac nid oedd y sychwr dwylo electronig yn gweithio. Dylid darparu deunyddiau sychu dwylo hylan yn y sinciau golchi dwylo.(Gofyniad cyfreithiol) (Argymhellir y dylid darparu tyweli papur taflu i ffwrdd.) (Erthygl 4(2), Atodiad II, Pennod I.4)

**6. Hyfforddiant Hylendid Bwyd:** Boddhaol adeg yr arolygiad.

**7. Rheoli Stoc/Diogelu Bwyd:** Nid oedd caead ar botyn o hufen dwbl yn yr oergell ac er bod y staff yn daer fod yr hufen wedi'i ddosbarthu ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd unrhyw god dyddiad gweledol. Argymhellir eich bod yn nodi'r dyddiad 'defnyddio erbyn' ar ochr cartonau agored o fwyd i sicrhau eu bod yn cael eu cylchdroi yn briodol.

**8. Rheoli Plâu:** Boddhaol adeg yr arolygiad.

**9. Strwythur/Cynnal a Chadw/Rheoli Gwastraff:** Dal angen trwsio'r teils llawr sydd wedi cracio. (Gofyniad Cyfreithiol) (Erthygl 4(2) ac Atodiad II, Pennod I.1)

10. Mae dal angen trwsio/adnewyddu caead y rhewgell gist. (Erthygl 4(2) ac Atodiad II Pennod II.1(f))

11. Mae gofyn i'r ffilteri sy'n rhan o'r uned awyru (*ventilation extraction unit*) fod yn eu lle wrth goginio. (Erthygl 4(2) ac Atodiad II, Pennod I.1)

12. Argymhellir y dylid darparu gorchuddion neu dryledwyr (*diffusers*) sy'n gwrthsefyll gwres ar y golau fflworoleuol mewn ardaloedd lle gallai bwyd gael ei halogi pe bai'r pethau hyn yn torri.

Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad: 20.08.14

Taflen Sgorio Risg y Safle Bwyd

Enw'r safle: CARIB BAYOU

Cyfeiriad: 23 Stryd Fawr, Caerbibo

Gweithredwr y Busnes Bwyd: Serge Trescott

20.08.2014

| | **Sgôr (Rhowch gylch)** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| **Perygl Posibl** | | |
| Dull trin bwyd | 40 (30) 10 5 | |
| Dull prosesu | (20) 0 | Coginio cig eidion '*sous vide*' |
| Defnyddwyr mewn perygl | 15 10 (5) 0 | |
| Sgôr ychwanegol | 22 (0) | |
| | | |
| **Lefel Gydymffurfio** | | |
| Hylendid | 25 20 15 (10) 5 0 | Cylchdroi stoc, dim deunydd sychu dwylo |
| Strwythur | 25 20 15 10 (5) 0 | |
| | | |
| **Hyder yn y tîm/dulliau rheoli** | 30 20 10 (5) 0 | |
| Perygl sylweddol | 20 (0) | |
| **Cyfanswm** | | **75** |
| **Categori** | | **B** |
| **Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd** | **Cyfanswm** | **20** |
| | **Sgôr waethaf** | **10** |
| | **Sgôr** | **4** |